

Adroddiad Blynyddol 2020/21

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'n cynnydd tuag at y weledigaeth a'r nodau a amlinellir yn Strategaeth sy'n Dda i Blant Caerdydd, gan ganolbwyntio ar y cynnydd y mae'r ddinas wedi'i wneud ers 2020.

Child
Friendly
CARDIFF



CAERDYDD
Sy'n Dda i
Blant



Cenhadaeth

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan ym menter Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant UNICEF y DU. Ein huchelgais yw i Gaerdydd gael ei hadnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant: dinas â phlant a phobl ifanc wrth ei gwraidd, lle mae hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu parchu gan bawb. Lle gwych i gael eich magu!

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sefydlu ymagwedd ar sail hawliau plant trwy'r gwasanaethau cyhoeddus i ddod ag atebion parhaol i broblemau cymhleth. Mae'n rhaid i ddiddymu rhwystrau sy'n atal ein plant a phobl ifanc rhag pontio'n llwyddiannus i fyd gwaith, dod â'r canlyniadau gorau i blant sydd yn ein gofal a helpu pobl ifanc i fyw yn annibynnol fod yn flaenoriaeth i bawb.

Nodau

- 1** CAIFF POB PLENTYN A PHERSON IFANC EI WERTHFAWROGI, EI BARCHU A'I DRIN YN DEG.
- 2** GWRANDEWIR AR LAIS, ANGHENION A BLAENORIAETHAU POB PLENTYN A PHERSON IFANC.
- 3** MAE POB PLENTYN A PHERSON IFANC YN CAEL EI FAGU MEWN CARTREF DIOGEL A CHEFNOGOL.
- 4** MAE POB PLENTYN A PHERSON IFANC YN CAEL ADDYSG DDA SY'N EI DDYSGU AM EI HAWLIAU.
- 5** MAE GAN BLANT IECHYD CORFFOROL, MEDDYLIOL AC EMOSIYNOL DA AC MAEN NHW'N GWYBOD SUT I GADW'N IACH.

Nod 1

CAIFF POB PLENTYN
A PHERSON IFANC EI
WERTHFAWROGI, EI
BARCHU A'I DRIN YN DEG.

Er mwyn cael llwyddiant
yn Nod 1 bydd Caerdydd
yn...

- » Hyfforddi staff mewn hawliau plant.
- » Egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gan sefydliadau a gwasanaethau.
- » Hyrwyddo hawliau plant a dathlu plant a phobl ifanc.
- » Rhoi gwybodaeth glir i blant a phobl ifanc am gyfleoedd a gwasanaethau.
- » Meddwl am sut mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y ddinas yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.



Uned Hawliau Plant

Mae cyllid bellach wedi'i sicrhau ar gyfer tîm parhaol yng Nghyngor Caerdydd fydd yn gweithio ym maes hawliau plant.

Ymhlith y cyfrifoldebau mae cydgysylltu rhaglen gyflenwi Caerdydd sy'n Dda i Blant, hyfforddiant staff, cyfranogiad strategol, a rhoi cyngor a chymorth ynghylch hawliau.



Hyfforddiant ar Hawliau Plant

Rydym wedi gweithio gydag Chronfa Ryngwladol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Plant (UNICEF) y DU i gydlyn a darparu hyfforddiant ar hawliau i 128 o unigolion ar draws grwpiau o weithwyr proffesiynol a nodwyd sy'n cyd-fynd â'r rhaglen Caerdydd sy'n Dda i Blant, gan gynnwys: Gweithwyr cymdeithasol, Seicolegwyr, Gwasanaethau Ieuentid, tîm Cymorth Cynnar Cyfiawnder Ieuentid, yr Heddlu.

Mae dwy ran o dair o aelodau Etholedig wedi cwblhau hyfforddiant pwrpasol "hawliau plant ymarferol" i sicrhau eu bod yn ystyried lles gorau plant wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae dros 2,700 o aelodau staff bellach wedi cwblhau eu modiwl hyfforddiant ar-lein gorfodol ar hawliau plant gan ddod â'r cyfanswm i 4,521.




Llunio Dyfodol Ein Dinas

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant mewn partneriaeth ag Ysgol Cyfrifiadureg Prifysgol Caerdydd a Llysgenhadon TechnoCamps, wedi rhoi cyfleoedd unigryw ac arloesol i blant a phobl ifanc helpu i lunio dyfodol Caerdydd trwy ddefnyddio'r llwyfan gemau rhithwir Minecraft Education.

Cymerodd dros 200 o blant ran yn yr heriau Minecraft a nodwyd gan bartneriaid y ddinas.

Cafodd y dyluniadau buddugol eu bwydo i'r broses ymgynghori ar gyfer 2 brosiect cynllunio yn y ddinas



Cynllun Adfer Dinas - Caerdydd sy'n Dda i Blant

Yn ystod y pandemig, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd strategaeth fanwl i adfer y ddinas a oedd yn amlinellu camau hanfodol a fyddai'n helpu i liniaru effeithiau'r cyfnodau clo, cefnogi adferiad canol y ddinas ac ailadeiladu ar gyfer y dyfodol.

Cymerodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant y ddogfen hon a datblygodd fersiwn weledol, fwy hygyrch mewn 8 iaith gymunedol a ddefnyddir ledled Caerdydd.

Anfonwyd y ddogfen hon at bobl ifanc a'u rhieni drwy'r holl ysgolion.



Rhwydwaith Hawliau Merched Cymru

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant bellach yn aelod o Rwydwaith Hawliau Merched Cymru (RhHMC).

Mae'r rhwydwaith yn cefnogi hawliau merched ac mae aelodau'n helpu i lywio'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy'r rhaglen Caerdydd sy'n Dda i Blant, yn ogystal â chyfeirio at wasanaethau ar draws sefydliadau i gefnogi merched a menywod ifanc drwy hyrwyddo eu hawliau, lleisio eu barn, a chael eu gwerthfawrogi.

Drwy'r bartneriaeth hon, mae plant a phobl ifanc wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu App Cymorth i Fenywod Caerdydd 'Your Space'.



Diwrnod Plant Y Byd 2020

I ddathlu Diwrnod Plant y Byd 2020 cyflwynodd Caerdydd sy'n Dda i Blant flychau o sialc i ysgolion ar draws y ddinas i hyrwyddo hawl plant i chwarae.

Diwrnod Plant Y Byd 2021

Roedd Caerdydd sy'n Dda i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â Dinas Arcedau i hyrwyddo hawliau'r plentyn ar Ddiwrnod Plant y Byd. Cafodd sawl taflunydd eu gosod mewn unedau gwag ar draws pedair o arcedau unigryw Caerdydd, gan daflunio negeseuon am bwysigrwydd Diwrnod Plant y Byd a Hawliau Plant ar waliau.



Gwybodaeth am Hawliau Plant i rieni newydd

Cychwynnodd Kyle Eldridge, Is-gadeirydd Bwrdd Cyngori Plant a Phobl Ifanc, brosiect i ddarparu gwybodaeth am hawliau plant am ddim i holl rieni newydd yng Nghaerdydd wrth gofrestru genedigaeth eu plentyn drwy'r swyddfa gofrestru.

Dylai'r prosiect hwn arwain at roi gwybodaeth am hawliau plant i rieni tua 3,500 o blant bob blwyddyn.

Nod 1



Gwên o Haf

Mae'r pandemig wedi cael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc Caerdydd, ac mae'n bwysig ein bod bob amser yn cofio'r aberth a wnaethant i helpu i'n cadw ni i gyd mor ddiogel â phosibl.

I ddiolch i blant a dathlu plentyndod, lluniodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant yr ŵyl 'Gwên o Haf', gyda'r nod o wella lles, helpu pobl i ailgysylltu â'r ddinas, cael profiadau newydd a gwneud ffrindiau newydd.

Roedd 3 rhan i'r ŵyl: safle gŵyl ar lawnt neuadd y ddinas, gweithgareddau ledled y ddinas a gynhaliwyd gyda'n partneriaid Caerdydd sy'n Dda i Blant, a chymryd dros Ffordd Churchill

32,139

yn Gwenu*



Gwenu ar draws
Gweithgareddau
Ledled y Ddinas

15602



Gwenu ar
Safle'r Wyl



10137



Yn gwenu ar
Ffordd Churchill


6400

Dadansoddiad
Grŵp Oedran



3563

LAWRLWYTHIADAU
APP
GWÊN O HAF



Edrychwch ar yr
app a'r wefan



40523

YMWELIADAU
Â'R WEF



*pan fyddwn ni'n dweud 'gwenu', rydyn ni'n sôn am achosion nad ydynt yn unigryw pan gymerodd plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd) ran mewn profiadau a ariannwyd gan Gwên o Haf - fel y'u cofnodwyd gan bartneriaid cyflenwi.

Nod 2

**GWRANDEWIR AR
LAIS, ANGHENION A
BLAENORIAETHAU POB
PLENTYN A PHERSON
IFANC.**

**Er mwyn cael llwyddiant
yn Nod 2 bydd Caerdydd
yn...**

- » Datblygu sgiliau plant a phobl ifanc fel bod eu llais yn cael ei glywed.
- » Annog a chefnogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn llunio'r ddinas.
- » Sicrhau bod pobl yn cymryd barn plant a phobl ifanc o ddifrif.



Cyngor Ieuenctid Caerdydd (CIC)

Mae Cyngor Ieuenctid Caerdydd yn gorff cynrychioliadol ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed, sy'n eirioli dros newid cadarnhaol a hawliau plant ledled dinas Caerdydd.

Mae aelodau'r cyngor ieuenctid wedi gwirfoddoli dros 500 awr o'u hamser, gan gymryd rhan mewn rhaglenni cyffrous fel arolygu gwasanaethau, cyfweld â swyddogion y Cyngor, cynnal cynadleddau a chymryd rhan mewn profiadau preswyl.



Bwrdd Cyngori Plant a Phobl Ifanc (BCPPhI)

Mae ein bwrdd cyngori wedi ein helpu i lunio'r rhaglen Caerdydd sy'n Dda i Blant drwy herio a llywio penderfyniadau, sicrhau y cyfathrebydd mewn fformat

prïodol a chynnig atebion i heriau y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Yn ddiweddar, hysbysodd y bwrdd ar raglen Gwên yr Haf a gwirfoddoli yn yr ŵyl ac mae dau aelod wedi bod yn cynnal gweithdai i bobl ifanc!

Bwrdd cyngori cenedlaethol UNICEF

Ym mis Chwefror, roeddem yn gyffrous iawn i ddarganfod bod Arthur - is-gadeirydd newydd y BCPPhI - wedi'i ddewis i ymuno â bwrdd cyngori ieuenctid cenedlaethol UNICEF



Cymuned Sglefrio Caerdydd

Mae grŵp cyfeirio o sglefrwyr ifanc wedi'i sefydlu i weithio ochr yn ochr â swyddogion y Cyngor a chwmni penseiri tirlunio yng Nghanaada i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer sglefrio yng Nghaerdydd.

Yn ogystal, cymerodd dros 700 o sglefrwyr ran mewn arolwg i hysbysu'r gwaith a'r cwmni cynhyrchu lleol gyda'r gymuned sglefrio i greu rhaglen ddogfen fer am y sîn sglefrio yng Nghaerdydd.

Nod 2



Symposiwm Caerdydd sy'n Dda i Blant

Wedi'i drefnu gan Caerdydd sy'n Dda i Blant ac wedi'i gefnogi gan Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg, daeth Symposiwm Dinasoedd Sy'n Dda i Blant â phlant ac ymarferwyr ynghyd, i gynllunio amgylcheddau sy'n dda i blant yn y dyfodol. Archwiliodd darlithoedd a gweithdai brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, adeiladu ysgolion, cynhwysiant a mwy.

Daeth y sesiwn â 79 o blant a phobl ifanc ynghyd gyda 141 o ymarferwyr oedolion. Casglwyd cannoedd o syniadau ac roedd yr adborth gan bawb yn hynod gadarnhaol.



Panel Ieuenctid Dinasyddion Caerdydd

Mae Panel Ieuenctid Dinasyddion Caerdydd yn grŵp sy'n agored i bobl ifanc 11 i 25 oed o bob rhan o Gaerdydd sydd wedi cytuno i roi eu barn ar nifer o bynciau ymgynghori drwy gydol y flwyddyn, gan eu grymuso i fod wrth wraidd penderfyniadau yn eu hawdurdod lleol gyda'r cyfle i ennill gwobrau.



Gwyrddach, Tecach, Cryfach

Fel rhan o waith cynllunio ac adfer Cyngor Caerdydd o bandemig Covid-19, gweithiodd Caerdydd sy'n Dda i Blant gyda chydweithwyr ym maes Datblygu Economaidd i ddatblygu a chynnal gweithdai gydag Ysgol Gynradd Pentrebaen, Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Uwchradd Cantonian.

Gwnaethom ymgysylltu â thros 200 o blant a phobl ifanc i wrando ar eu profiadau a chasglu eu barn ar yr hyn y dylai Cyngor Caerdydd ei ystyried wrth gynllunio adferiad y ddinas allan o'r pandemig.



Rhaglen Ifanc

Mae'r Rhaglen Ifanc yn cynnwys tri phrosiect gwahanol: Arolygwyr Ifanc, Cyfwelwyr Ifanc a Chomisiynwyr Ifanc. Mae pobl ifanc yn ymgymryd â hyfforddiant yn y gwahanol agweddau ar y rhaglen sy'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan mewn arolygiadau, cyfweiliadau neu gomisiynu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi helpu i gefnogi'r gwaith o hyfforddi:

46 o gyfwelwyr Ifanc a 35 o arolygwyr ifanc

Nod 2



Hacathon Caerdydd sy'n Dda i Blant a Phrifysgol Caerdydd

Mewn partneriaeth â Chaerdydd sy'n Dda i Blant, galwodd tîm menter Prifysgol Caerdydd ar fyfyrwyr i fynd i'r afael â'r 5 nod a nodir yn y Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant gan ystyried hawliau plant.

Cafodd 25 o fyfyrwyr eu briffio ar Hawliau Plant mewn Ymarfer gan swyddog rhaglen UNICEF UK, Jeni Bainbridge. Roedd yn darparu'r sylfaen i ddod o hyd i atebion y gellir eu gwireddu i 1 neu fwy o nodau Caerdydd sy'n Dda i Blant.



Caerdydd Un Blaned

Ffurfiwyd is-grŵp o Gyngor Ieuenctid Caerdydd i drafod strategaeth ddrafft Caerdydd Un Blaned a rhoi eu safbwynt ar y materion dan sylw.

Aeth yr is-grŵp ati i lunio ymgynghoriad cyn ei anfon at ysgolion a chafwyd 875 o ymatebion iddo.

Un o'r canlyniadau pwysicaf oedd integreiddio llythrennedd carbon i bawb yn y strategaeth.

Diweddarwyd y strategaeth i gynnwys addysg, a buddsoddwyd adnoddau i ddod ag agenda Caerdydd Un Blaned i gwricwlwm yr ysgol.



Ymgynghoriad Maes Chwarae

Yn gynharach eleni, cefnogodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant adran Parciau Caerdydd

i ymgysylltu â phlant ysgol ledled y ddinas wrth geisio ailgynllunio meysydd chwarae 'cyrchfan'. Roedd y pecyn cymorth a ddatblygwyd gan Gaerdydd sy'n Dda i Blant yn galluogi disgyblion i roi eu barn a'u syniadau ar yr hyn a fyddai'n gwneud 'maes chwarae o'u breuddwyd'.

Cyflwynodd disgyblion o Ysgol Gynradd Creigiau, Ysgol Gynradd Kitchener, Ysgol Gynradd Millbank, Ysgol Gynradd Severn, Ysgol Gynradd Sant Cuthbert, Ysgol Gynradd Dewi Sant, Ysgol Gynradd Santes Monica, yn ogystal â chynigion ar wahân gan blant eraill, eu lluniau a'u syniadau.



Creawdwyr Ifainc

Mae'r Creawdwyr Ifainc yn grŵp o bobl ifanc sy'n gweithio ar y cyd â chymorth gweithwyr ieuenctid i ddatblygu sgiliau amlgyfrwng.


Mae'r rhaglen hon yn caniatáu i bobl ifanc ddatblygu sgiliau sy'n eu helpu i fynegi eu hunain a rhannu eu barn.

Yn ogystal â chreu gwaith annibynnol, mae'r grŵp wedi helpu i lywio a hyrwyddo prosiectau

gyfer y gwasanaeth ieuenctid a thimau eraill ym mhob rhan o'r Cyngor - fel "Llais Pobl Ifanc ar

Ddiogelu" a'r "Gwên o Haf".

Nod 2



Map Ffordd Ennyn Diddordeb Disgyblion

Yn sgil y pandemig, datblygodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant Fap Ffordd Ennyn Diddordeb Disgyblion a oedd yn manylu ar yr ystod o offer y gallai disgyblion ddewis eu defnyddio i rannu eu barn.

Roedd hyn yn cynnwys Her Syniadau'r Haf Caerdydd, Gweddarllediad Holi ac Ateb gyda'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Grŵp Gorchwyl Disgyblion newydd ei gynnull a allai helpu i roi adborth a llunio penderfyniadau.

Her Syniadau'r Haf Caerdydd

Yn haf 2020, lansiodd Caerdydd sy'n Dda i Blant gystadleuaeth ledled y ddinas yn gofyn i blant rannu eu syniadau gorau ar gyfer gwneud Caerdydd yn lle gwell i gael eich magu.

Rhwydwaith Dyfodol Diwastraff

Datblygwyd y syniad buddugol gan Divya Joshi a'i nod oedd helpu i lunio dyfodol gwyrddach i'n dinas!

Cefnogodd Caerdydd sy'n Dda i Blant Divya i ddod â'i syniad yn fyw, a arweiniodd at greu Rhwydwaith Diwastraff Caerdydd ei hun, gan arwain at gynydd mewn mannau gollwng TerraCycle ledled y ddinas a thudalen we sy'n helpu defnyddwyr i ddod o hyd i fannau gollwng, ac ailgylchu deunyddiau sydd fel arfer yn anodd eu hailgylchu!

Gweminarau Ailgychwyn Ysgolion a Chwestiynau Cyffredin

Cynhaliwyd 2 weminar ailgychwyn ysgolion gan Gaerdydd sy'n Dda i Blant, y Cyfarwyddwr Addysg a'r Aelod Cabinet dros Addysg. Roedd yn gyfle i blant a phobl ifanc ymgysylltu ag Arweinwyr y Cyngor ar y pwnc Ailgychwyn Ysgolion.

Cafodd pobl ifanc eu grymuso, a chafodd eu cwestiynau a'u pryderon eu bwydo i mewn i'r Cwestiynau Cyffredin ynghylch ailgychwyn yn yr ysgol (a gyhoeddwyd mewn 8 iaith).

Coronafeirws a Fi

Cefnogodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant y gwaith o gyflwyno arolwg Coronafeirws a Fi Comisiynydd Plant Cymru.

Casglodd yr arolwg wybodaeth am brofiadau byw plant a phobl ifanc yn ystod y cyfnod clo ac roedd y data lleol a gasglwyd yn sail i'r penderfyniadau a wnaed yn rhan o'r cynlluniau adfer.

Nod 3

**MAE POB PLENTYN A
PHERSON IFANC YN CAEL
EI FAGU MEWN CARTREF
DIOGEL A CHEFNOGOL.**

**Er mwyn cael llwyddiant
yn Nod 3 bydd Caerdydd
yn...**

- » Gweithio gyda phlant a theuluoedd i gael y gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
- » Gwellu bywydau plant a phobl ifanc na allant fyw gyda'u teuluoedd.
- » Sicrhau bod plant yn cael y dechreuad gorau mewn bywyd.




Arloesedd y Blynyddoedd Cynnar

Mae Caerdydd wedi gwneud cais i fod yn arloeswr ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system blynyddoedd cynnar fwy cydgysylltiedig ac ymatebol sy'n rhoi anghenion unigryw pob plentyn wrth ei gwraidd.

Mae arweinwyr gwasanaethau ym maes lechyd, Addysg, Gwasanaethau Plant a sefydliadau trydydd sector wedi ymrwymo i gydweithio i wneud system y blynyddoedd cynnar yn fwy ymatebol.

Bydd grŵp gorchwyl aml-asiantaeth yn dechrau cynllunio'r ffordd ymlaen yn ystod y misoedd nesaf.



Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2021 -2024

Rhyddhaodd Cyngor Caerdydd ei strategaeth rhianta corfforaethol newydd sy'n nodi'r hyn y mae angen i'r awdurdod lleol ei wneud fel rhieni corfforaethol i gefnogi ein plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i'w galluogi i ffynnu a gwella eu canlyniadau.

Mae'n amlinellu pum blaenoriaeth allweddol a ffurfiwyd yn seiliedig ar farn a phrofiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd.

Mae'r broses o ddatblygu'r Strategaeth hon wedi bod yn broses gynhwysol dan arweiniad

aelodau etholedig, a chan gynnwys plant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol a gefnogwyd gan gynllun gweithredu.



Hawliau Plant ar draws y Bwrdd lechyd

Mae hyfforddiant staff ar hawliau plant a Siarter Bwrdd lechyd y Brifysgol bellach ar waith. Mae holl staff newydd y bwrdd lechyd bellach yn derbyn hyn yn ystod eu cyfnod ymsefydlu.

Mae'r Bwrdd leuenctid yn cyfarfod yn rheolaidd i ymgynghori ar benderfyniadau strategol y BIP, yn cyfweld ar gyfer staff newydd (gan gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol newydd) ac yn rheolaidd yn cyflwyno ar faterion allweddol sy'n ymwneud â phlant i fwrdd y swyddogion gweithredol.

Ceir cynaliadwydd wrth gynnwys y Bwrdd leuenctid yn yr adran Wirfoddoli a chaiff ei gefnogi erbyn hyn gan aelod o staff parhaol.

Nod 3



Tocynnau Digwyddiadau Nadolig

Prynodd a dosbarthodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant docynnau i dros 5,500 o unigolion i berfformiadau mewn 3 theatr a 2 ddigwyddiad Nadolig awyr agored ledled y ddinas. Defnyddiom ein

cysylltiadau ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant, ysgolion sy'n parchu hawliau, a'n rhwydwaith allanol o bartneriaid ledled y ddinas i rannu'r cyfle gyda theuluoedd sydd ei angen fwyaf.



Pecyn "Dod yn Rhiant Ifanc"

Lluniodd Addewid Caerdydd becyn ar gyfer rhieni ifanc a oedd yn darparu gwybodaeth a manylion am gyrsiau a allai gefnogi rhieni a phlant.

Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am ddychwelyd i addysg pe baent yn teimlo'n barod.

Nod 4

**MAE POB PLENTYN A
PHERSON IFANC YN
CAEL ADDYSG DDA
SY'N EI DDYSGU AM EI
HAWLIAU.**



Er mwyn cael llwyddiant yn Nod 4 bydd Caerdydd yn...

- » Sicrhau bod plant a phobl ifanc nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd yn cael addysg dda.
- » Gweithio gyda UNICEF i sicrhau bod pob ysgol yn addysgu ac yn parchu hawliau plant.
- » Rhoi i bob disgybl addysg sy'n bodloni ei anghenion, ble bynnag sy'n bosibl yn safle'r ysgol.
- » Gweithio gyda'i gilydd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn oedolion ar gyfer byw'n annibynnol, dinasyddiaeth weithgar a byd gwaith.

Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA) UNICEF

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi cefnogi ysgolion i wneud cynnydd sylweddol o ran sefydlu dull addysg sy'n seiliedig ar hawliau plant ac mae wedi dod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru a Lloegr i ariannu mynediad llawn i'r RRSA i'w holl ysgolion.

"Mae'r model canolog o roi mynediad i holl ysgolion Caerdydd at gymorth ac achrediad RRSA wedi gweld y niferoedd uchaf erioed o ysgolion yn ymgysylltu â'r rhaglen. Mae sicrhau bod hyfforddiant a chymorth yn hygyrch i bawb wedi galluogi ysgolion i wneud cynnydd cyflymach nag a fyddai fel arfer yn cael ei weld." - Pwyllgor y DU ar gyfer UNICEF (UNICEF y DU)

Prifysgol y Plant Caerdydd

Mae Prifysgol y Plant yn dod i Gaerdydd! Elusen sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i annog cariad at ddysgu ymysg plant yw Prifysgol y Plant.

Yn Nghaerdydd, rydym yn gwneud hyn drwy annog a dathlu cyfranogiad mewn gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Profwyd bod effaith y gweithgareddau hyn yn gadarnhaol a dyna pam ein bod wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal a mynediad i blant o bob cefndir.

Canllawiau Derbyn i Ysgol

Cefnogodd tîm Caerdydd sy'n Dda i Blant dîm derbyn i ysgolion Caerdydd i ddatblygu canllawiau syml newydd ar gyfer gwneud cais i ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r animeiddiadau sy'n addas i blant a'r 7 awgrym da, mewn 8 iaith, yn hwyluso'r broses dderbyn drwy esbonio pwysigrwydd defnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael a gwneud cais ar amser ac ati.

Nod 4



Fideos Sector Twf - Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Gweithiodd Caerdydd sy'n Dda i Blant gydag Addewid Caerdydd i gefnogi ymgysylltiad plant a phobl ifanc ar ddatblygu fideos a gomisiynwyd a fydd yn helpu i hysbysu ac addysgu plant a phobl ifanc ar y sectorau twf, y gyrfaoedd ynddynt a'r gwahanol lwybrau gyrfa sydd ar gael.

Derbyniodd Addewid Caerdydd gyllid gan rwydwaith SEREN i gynhyrchu'r fideos hyn a fydd yn cael eu defnyddio ar draws gwahanol rwydweithiau.



Canllawiau Gwrth-fwlio

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw gwrth-fwlio newydd, sydd wedi'i greu i herio bwlio mewn ysgolion yng Nghymru.

Cafodd y canllawiau, sydd wedi'u hanelu at gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol, rhieni, gofawyr a phlant a phobl ifanc, eu lansio cyn Wythnos Gwrth-fwlio Tachwedd 2019.

Datblygwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen i fynd i'r afael â meysydd gwaith a gwmpesir gan yr ALI yr oedd Caerdydd sy'n Dda i Blant yn aelod allweddol ohonynt er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi wrth ddatblygu a chyflwyno'r canllawiau newydd.



Mynd i'r afael ag Amddifadedd Digidol

Drwy gydol y pandemig, gweithiodd Cyngor Caerdydd i fynd i'r afael ag amddifadedd digidol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfleoedd i ymgysylltu â dysgu o bell tra bod ysgolion ar gau.

Mae dros 15 mil o ddyfeisiau digidol a 2 fil o lwybryddion 4G wedi'u rhoi i blant a phobl ifanc sy'n profi amddifadedd digidol drwy eu hysgolion.

"Mae'r cynllun hwn yn hyrwyddo strategaeth hirdymor Caerdydd i ddarparu'r cysylltedd priodol i bob plentyn, yn ystod ac ar ôl y cyfnod clo."

- Yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd
Sarah Merry



Amgylchedd Dysgu wedi'i Hunandrefnu (ADH)

Daethpwyd â sesiynau ADH i Gaerdydd gan Gaerdydd sy'n Dda i Blant a lansiwyd rhaglen beilot rhwng mis Chwefror a mis Ebrill 2021.

Mae ADH yn ffordd syml, rhad ac am ddim a hwyl o annog dysgu sy'n seiliedig ar ymholiadau ac sy'n cael ei arwain gan blant. Y cyfan sydd ei angen yw cyfrifiadur, cysylltiad â'r rhyngwrdd a myfyrwyr.

Yn sgil llwyddiant mawr y cynllun peilot mae'r galw am ADH yn ysgolion Caerdydd wedi tyfu ac mae bellach wedi ehangu i ddatblygu Rhwydwaith ADH i Gymru, gan weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cysylltiadau Ysgol Rhyngwladol a Start SOLE Colleagues yn UDA!

Nod 4



Disgyblion sy'n Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)

Mae darpariaeth AHY Caerdydd yn rhoi barn plant wrth wraidd ei harferion a'i pholisïau. Mae pobl ifanc sydd wedi'u huwchsgilio wedi cynnal arolygiadau o'r ddarpariaeth, wedi bod yn rhan o baneli cyfweld ar gyfer swyddi swyddogion arweiniol, wedi adolygu'r prosesau atgyfeirio ac wedi gwerthuso ceisiadau am grant.

Mae pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn adolygiad addysgu cymunedol ac mae swyddi mentoriaid ieuencid ychwanegol wedi'u sefydlu ar draws timau i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal neu sydd ag anabledd.



Llais Pobl Ifanc ar Ddiogelu

Mae Llais Pobl Ifanc ar Ddiogelu yn darparu dull aml-asiantaeth i helpu i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghaerdydd yn ddiogel, yn hapus ac yn ffynnu.

Datblygwyd y ddogfen ar y cyd rhwng Gwasanaethau Addysg, Plant ac Ieuencid Cyngor Caerdydd. Mae'n amlinellu dull o ddiogelu pobl ifanc yn ystod y glasoed a'r cyfnod pontio o blentyn i oedolyn, gan helpu i hyrwyddo gwydnwch, lleihau risgiau a mynd i'r afael â niwed fel y gall pobl ifanc fyw'n ddiogel yn eu teuluoedd a'u cymunedau.

Nod 5

**MAE GAN BLANT IECHYD
CORFFOROL, MEDDYLIOL AC
EMOSIYNOL DA AC MAEN NHW'N
GWYBOD SUT I GADW'N IACH.**

Er mwyn cael llwyddiant yn Nod 5 bydd Caerdydd yn...

Rhoi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fod yn actif yn ystod eu bywydau pob dydd trwy:

- » Sicrhau bod y ffyrdd yn fwy diogel gyda mwy o ardaloedd 20 mya
- » Darparu lleoedd diogel i chwarae
- » Darparu llwybrau cerdded a beicio diogel
- » Gweithio gydag ysgolion i annog disgyblion i gerdded, neu fynd ar sgwter neu feic i'r ysgol yn ddiogel

Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn hapus ac yn iach trwy:

- » Roi'r gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt pan fo'u hangen arnynt
- » Rhoi rhywun iddynt siarad ag ef pan fydd ei angen arnynt
- » Eu haddysgu sut i aros yn hapus ac yn iach



Adroddiad Menter Cyfeillgar i Fabanod (MCF)

Mae gwasanaethau bydwreigiaeth y blynyddoedd cynnar ac iechyd wedi cael eu hailachredu unwaith eto â statws Cyfeillgar i Fabanod UNICEF.

Mae swydd Cydlynnydd Ymwelydd Iechyd Bwydo Babanod llawn amser newydd bellach ar waith i sicrhau bod Safonau Ymwelwyr Iechyd MCF yn cael eu cynnal

Cydnabuwyd bod gan y staff lefelau uchel o wybodaeth a bod safonau MCF wedi'u bodloni ar gyfradd basio o 80%. Bydd hyfforddiant parhaus i staff a diwygiadau i gynlluniau gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn helpu i sicrhau bod safonau'r MCF yn cael eu cynnal.



Iechyd a Lles Emosiynol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n profi pryderon lles emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r galw am wasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol dros gyfnod pandemig Covid -19. Rhai o'r mentrau allweddol i gynyddu nifer a cyfrol y gwasanaethau yw:

- Un Pwynt Mynediad, gan gynnwys llinell ymgynghori ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- Ffurio un tîm asesu pwrpasol
- Ymestyn y gwasanaeth argyfwng CAMHS i 24/7
- Datblygu'r Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta Arbenigol i Blant a Phobl Ifanc ymhellach

Mae'r wefan newydd cavoyoungwellbeing.wales yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a thudalennau hunangymorth ar amrywiaeth o bynciau i blant a phobl ifanc.

Nod 5



Lonydd Chwarae

Mae menter newydd i drawsnewid lonydd a lonydd cefn yn fannau hwyl, gwyrdd a diogel i blant gael chwarae, yn cael ei threalu yn Grangetown.

Nod partneriaeth ar y cyd rhwng Cyngor Caerdydd, Prifysgol Caerdydd a Phafiliwn y Grange, y Prosiect Lonydd Chwarae yw cynyddu cyfleoedd i blant chwarae'n ddiogel wrth hyrwyddo cydlyniant cymunedol a helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel tipio anghyfreithlon.


Datblygwyd pecyn cymorth fel y gall grwpiau cymunedol eraill efelychu'r rhaglen ledled y ddinas



Arwyddion Chwarae

Mae Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi ailgynllunio arwyddion gwybodaeth ar gyfer meysydd chwarae ledled y ddinas i adlewyrchu deddfwriaeth newydd sy'n amddiffyn plant. Mae arwyddion ffowlio Dim Ysmygu/Cŵn bellach yn fframio'r neges ynghylch pwysigrwydd erthygl 31 o CCUHP; yr hawl i chwarae.

Yn ogystal, creodd y tîm arwyddion "Mae gan blant yr hawl i chwarae yma" i annog mwy o chwarae yn yr awyr agored mewn mannau diogel. Dosbarthwyd y rhain ar draws cymunedau.



Llwybrau Stori

Mae storiwr arobryn wedi'i gomisiynu gan Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant i greu llwybrau stori dwyieithog pwrpasol gyda chymorth plant ysgol ledled Caerdydd.

Mae'r llwybrau wedi'u cynllunio i annog chwarae yn yr awyr agored, cael hwyl ac archwilio tirnodau naturiol Caerdydd.

Mae'r straeon wedi'u lleoli yn: Bae Caerdydd, Parc Bute, Fferm y Fforest, Cefn Onn.

Mae pedwar arall ar y ffordd yn: Parc Tredelerch, Coed-y-Nant, Bryngaer Caerau, Llynnoedd Hendre.



Mesurau Diogelu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Defnyddiwyd dull sy'n seiliedig ar hawliau i wella gwasanaethau i bobl ifanc 16 a 17 oed yn adran damweiniau ac achosion brys Caerdydd gan gynnwys hyfforddiant i staff presennol, gwell protocolau, a 2 aelod newydd o staff arbenigol.

Nod 5



Cotiau Glaw i Ysgolion

Drwy grant cyfleoedd chwarae 'Cymru Gyfan', mae Caerdydd sy'n Dda i Blant wedi darparu 800 o gotiau glaw ar draws 23 o ysgolion (sydd â'r lefelau uchaf o brydau ysgol am ddim). Bydd y cotiau hyn yn galluogi plant heb ddillad awyr agored priodol i chwarae yn yr awyr agored yn ystod amseroedd egwyl pan fydd y tywydd yn wlyb.



Teithio Llesol

Mae cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ar ddwy ran o dair o ffyrdd y ddinas a sefydlu 14 o "Strydoedd Ysgol" ynghyd â'r 10 arall sydd ar y gweill ar gyfer 2022/23, wedi gwella diogelwch plant a phobl ifanc ar strydoedd Caerdydd.

Mae teithio llesol i'r ysgol ac oddi yno yn cael ei alluogi a'i hyrwyddo

drwy ddatblygu Cynlluniau Teithio Llesol a roddwyd ar waith gan 94 o ysgolion, ynghyd â chyflwyno dros 80 o fflydoedd beiciau a 50 o lochesi beiciau.